



Ein Cyf/Our Ref

Clare Pillman
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cambria House
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

10 Hydref 2018

Annwyl Clare,

Cyfarwyddyd Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009 (Perfformio Swyddogaethau Dirprwyedig) (Cymru) 2018 - trwydded forol 12/45/MLv1

Yn dilyn ein cyfarfod ar 8fed Hydref, mewn cysylltiad â'r lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus a'r pryder parhaus ynghylch diogelwch y deunydd sydd i'w waredu ger Bae Caerdydd o safle Hinkley Point C (trwydded forol 12/45/MLv1)), mae'n bwysig bod mwy yn cael ei wneud i gysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd ac i roi sicrwydd, yn enwedig o ran y pryderon a godwyd gan Aelodau'r Cynulliad ar ran eu hetholwyr yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwyf wedi penderfynu ei fod yn briodol imi roi cyfarwyddyd ichi gymryd camau pellach. Mae'r llythyr hwn, felly yn gyfarwyddyd i chi wedi'i wneud o dan adran 100 y Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Cyfarwyddyd

Mae Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 100 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009¹, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn:

Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gysylltu a chyfathrebu yn ehangach Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth arfer Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwy Swyddogaethau) (Cymru) 2013² a Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwy Swyddogaethau) (Cymru) 2017³, arfer ei swyddogaethau er mwyn cysylltu a gohebu yn ehangach mewn perthynas â Thrwydded Forol: 12/45/MLv1 i sicrhau:

- Tryloywder parhaus y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael;
- Edrych ar y cyfathrebu presennol i ddysgu unrhyw wersi ble y bo angen cysylltu mwy â'r cyhoedd er mwyn rhoi sicrwydd i bobl;
- Bod mwy o gysylltu â'r cyhoedd er mwyn datblygu'r negeseuon ar y mater hwn;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Edrych ar gynnwys eich gwefan i wneud yn siŵr eich bod yn mynd i'r afael â phryderon pobl ac yn rhoi sicrwydd i dawelu pryderon y cyhoedd.

Teitl y Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009 (Perfformio Swyddogaethau Dirprwyedig)(Cymru) 2018 a daw i rym ar 10 Hydref 2018 ac ni chaiff effaith wedi diwrnod olaf trwydded forol 12/45/MLv1, sef 4 Mawrth 2019.

Yn unol ag adran 100(4) Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, caiff y cyfarwyddyd hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs